

## Gwers 1

# Pysgod a fi

### Amcanion

Fe fydd y wers hon yn galluogi plant i:

- rannu eu meddyliau, barn ac arsylwadau am bysgod a gwrandao ar rai eraill;
- enwi ac adnabod pedwar i chwe gwahanol rhywogaeth o bysgod;
- enwi pedwar i chwe pryd bwyd wedi'u gwneud o bysgod.

### Adnoddau

- PowerPoint Popeth am Bysgod
- taflen waith Fy mhysgod blasus
- dalen Ffotograffau pysgod
- taflen waith Enwi'r pysgodyn
- taflen Beth ydw i?
- gweithgaredd Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol (BGRh) Dysgu am bysgod
- poster Prydau bwyd pysgod gwych

### Cyflwyniad

Esbonio mai gwrs ydy hon am bysgod a phrydau bwyd pysgod y maen nhw wedi eu blasu neu wedi eu gweld o'r blaen

Holi'r plant a nodi eu hatebion ar y bwrdd i gadw cofnod:

- Faint o fathau o bysgod y gallwch eu henwi?
- Ysgrifennwch rifau 1 i 6 ar y bwrdd. Ydy'r plant yn gallu enwi chwe gwahanol rhywogaeth.
- Pa bysgod ydych chi wedi eu bwyta (pysgod neu prydau bwyd pysgod)?
- Gofynnwch i'r plant ddisgrifio'r pysgod a'r prydau bwyd pysgod y maen nhw wedi eu bwyta – beth maen nhw'n eu hoffi/ddim yn eu hoffi amdany'n nhw?
- Gofynnwch iddyn nhw esbonio eu hatebion.
- Holwch y plant a oes yna unrhyw brydau bwyd pysgod yr hoffen nhw eu blasu? Anogwch nhw i esbonio eu hatebion.

Defnyddiwch y **PowerPoint Popeth am bysgod** i gyflwyno'r chwe rhywogaeth o bysgod a detholiad o brydau bwyd pysgod. Gallwch argraffu rhai o'r sleidiau neu bob un o'r cyflwyniad yma i greu arddangosfa i'r plant gyfeirio ato. Dangoswch y **poster Pysgod gwych** i'r plant a'i arddangos yn y dosbarth.

Efallai y byddwch eisiau i'r plant lenwi'r **daflen waith Fy mhysgod blasus** fel cofnod o'ch trafodaeth.

### Gweithgaredd

Trefnwch y plant mewn grwpiau o ddau neu dri. Rhowch ddelwedd o bysgod i bob grŵp o'r **ddalen Ffotograffau pysgod** a gofynnwch iddyn nhw ei guddio. Dylai'r plant lenwi'r **daflen waith Enwch y pysgodyn** i ddisgrifio nodweddion eu pysgodyn.

Ar ôl i'r holl blant orffen eu disgrifiadau, dylent roi'r delweddau i'w hathrawes/athro a'u harddangos gerbron y dosbarth.

Gofynnwch i rai o'r plant ddarllen eu disgrifiadau i blant eraill er mwyn iddyn nhw geisio dyfalu pa bysgodyn oedd ganddyn nhw.

Gallech ofyn i'r dosbarth nodi beth maen nhw'n ei feddwl cyn iddo gael ei ddatgelu a chreu system sgorio i weld pwy sydd yn cael y mwyaf o ddisgrifiadau'n gywir.

### Sesiwn i gloi

Rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp. Darllenwch y disgrifiadau o wahanol bysgod o'r prydau bwyd pysgod o'r **daflen Beth ydw i?** i weld os ydy'r grwpiau yn gallu enwi'r prydau bwyd yr ydych yn eu disgrifio. Rhowch bwyntiau am yr atebion cywir. Y grwpiau gyda'r mwyaf o bwyntiau sydd yn ennill.

Defnyddiwch y **BGRh Dysgu am Bysgod** i adolygu enwau'r gwahanol rywogaethau o bysgod a'r gwahanol brydau bwyd pysgod.

### Estyniad

Dangoswch enghreifftiau o bysgod go iawn i'r plant. Anogwch nhw i ddisgrifio golwg y gwahanol bysgod a'u cymharu nhw. Pa bysgod mae'r plant yn eu hoffi? Ydyn nhw'n gallu enwi'r pysgod?